



Theatr
Genedlaethol
Cymru

Mrs Reynolds a'r Cena Bach

Taith Ebrill / Mai 2016



Pecyn i ddysgwyr
Materials for Welsh learners

Pegi Talfryn

Cwmni Deialog

Cofiwch ddod i'r sgwrs cyn-perfformiad yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, ar 10 Mai 2016

Come to the pre-performance talk for Welsh learners in Theatr Clwyd, Mold, on 10 May 2016

CYFLWYNIAD THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Mae'n bleser gan Theatr Genedlaethol Cymru gyhoeddi cynhyrchiad newydd **Mrs Reynolds a'r Cena Bach** fydd yn teithio Cymru yn ystod Ebrill a Mai 2016 a hynny mewn partneriaeth â Chwmni'r Frân Wen a Galeri Caernarfon. Mae **Mrs Reynolds a'r Cena Bach** yn gyfieithiad newydd gan Meic Povey o ddrama gyfoes gan un o awduron theatr pennaf Cymru, Gary Owen, *Mrs Reynolds and the Ruffian*, a berfformiwyd gyntaf yn Watford Palace Theatre yn 2010. Ffion Haf Jones fydd yn cyfarwyddo'r cynhyrchiad.

Siw Hughes (**Gwaith Cartref**, ac enillydd BAFTA Cymru am yr actores orau am ei rhan fel Kath Jones ar **Pobol y Cwm**) fydd yn chwarae rhan Mrs Reynolds. Siôn Emyr (**Rownd a Rownd**) fydd yn chwarae rhan y 'Cena Bach', sef Jay. Yn cwblhau'r cast mae Leah Gaffey, Rhian Green ac Iwan Fôn. Bydd y cynhyrchiad yn agor yn Galeri Caernarfon ar y 13eg o Ebrill cyn teithio Cymru yn ystod mis Ebrill a Mai 2016.

Pan mae gardd hyfryd Mrs Reynolds yn cael ei difrodi, caiff y fandal ifanc, Jay, ei yrru nôl yno gan yr awdurdodau i helpu'r hen wraig i'w thrwsio. O ganlyniad, daw dau fyd benben a'i gilydd; byd parchus, twt yr hen wraig, a byd heriol, anghynnes y llanc ifanc. Wrth iddyn nhw ddod i ddeall ei gilydd, datgelir rhywbeth sy'n dipyn o fraw i'r ddau.

Mae'r ddrama gyfoes hon gan yr awdur gwobrwyol Gary Owen – ac un o'n awduron Cymreig mwyaf beiddgar – yn cynnig golwg newydd, ffraeth a chadarnhaol ar y natur ddynol ac ar berthynas dwy genhedlaeth a dau ddsbarth cymdeithasol yng Nghymru heddiw.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU INTRO

Mrs Reynolds a'r Cena Bach, which is produced in partnership with Cwmni'r Frân Wen and Galeri Caernarfon, will be touring Wales in April and May 2016, and is directed by Ffion Haf Jones. **Mrs Reynolds a'r Cena Bach** is a new translation by Meic Povey of Gary Owen's acclaimed contemporary play *Mrs Reynolds and the Ruffian* which was first performed at Watford Palace Theatre in 2010. This will be the first time that the play will be staged in Wales.

Siw Hughes (**Gwaith Cartref**, and winner of BAFTA Cymru for best actress for her role as Kath Jones on **Pobol y Cwm**) will be playing the role of Mrs Reynolds. Siôn Emyr (**Rownd a Rownd**) will be playing the role of the 'ruffian', Jay. Completing the cast are Leah Gaffey, Rhian Green and Iwan Fôn. The production will open at Galeri, Caernarfon on the 13th of April before touring Wales during April and May 2016.

When Mrs Reynolds' lovingly tended garden is vandalised, Jay, the guilty and troubled youth, is sent back by the authorities to help her fix it. Two generations locked in battle; little old Mrs Reynolds with her traditional values and "nice little life" vs. the textbook hoodie demanding respect but offering little in return. Just as they think they have the measure of each other, something is revealed and they are both shocked by what they find out.

This contemporary drama by the award winning Gary Owen – one of our most audacious playwrights – offers new insights, witty and positive, into human nature and the relationship between two generations and two social classes in Wales today.

Meddai Gary Owen, awdur y ddrama wreiddiol;

“Dwi mor ddiolchgar i Theatr Genedlaethol Cymru am ddod â Mrs Reynolds adre. O’n i bron ddim yn credu bod awdur mor ddawnus â Meic Povey yn barod i drosi ‘ngwaith, ac mae hi wedi bod yn bleser mawr ail-gwrdd â’n nghymeriadau, pob un yn siarad gyda lleisiau newydd, diolch i Meic. Dwi methu aros i weld perfformiad Siw Hughes, actores dwi wedi ei hedmygu ers blynnyddoedd.”

Meddai Meic Povey, sydd wedi cyfieithu’r ddrama;

“Mae Gary Owen yn ddramodydd o bwys, fel y tystia ei lwyddiannau, yma yng Nghymru a thros Glawdd Offa. Braint o’r mwya’ oedd cael y cyfle i gyfieithu **Mrs. Reynolds a’r Cena Bach (Mrs. Reynolds and the Ruffian)** i’r Gymraeg, a’i hail osod mewn cefndir a chyswllt Cymreig. Dyma ddrama am y gagendor rhwng yr hen a’r ifanc; am frad; am faddeuant – ac yn y diwedd efallai, am gariad. Dwi’n gwbl ffyddiog y bydd cynulleidfaoedd Cymru yn cael yr un mwynhad o’i gweld yn cael ei pherfformio ag y cefais i o weithio arni.”

Meddai Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru;

“Mae’n bleser gennym gyhoeddi’r newyddion cyffrous yma heddiw. Rydw i wedi bod yn edmygwr mawr o waith Gary Owen ers blynnyddoedd. Mae wedi codi i’r brig fel un o’n awduron mwyaf nodedig, a’i waith wedi cael llwyddiant aruthrol mewn theatrau fel y Royal Court a’r National Theatre. Ac mae’n anrhydedd cael dod a dau o’n awduron pennaf at ei gilydd mewn un cynhyrchiad, gyda Meic Povey, wrth gwrs, yntau yn un awduron mwyaf amryddawn ac adnabyddus Cymru.

Gary Owen, author of **Mrs Reynolds and the Ruffian** said;

“I’m so grateful to Theatr Genedlaethol Cymru for bringing Mrs Reynolds home. I couldn’t believe that an author as talented as Meic Povey was ready to translate my work, and it’s been a real pleasure to revisit my characters, all of them who now speak with new voices, thanks to Meic. I also can’t wait to see Siw Hughes’s performance, an actress I have admired for years.”

Meic Povey, who has translated the play, said;

*“Gary Owen is a hugely renowned playwright as his successes prove, both here in Wales and further afield. It was a great pleasure to be given the opportunity to translate **Mrs Reynolds and the Ruffian** to Welsh, and place it in a Welsh context. This is a play about the chasm between the old and the young, about betrayal and forgiveness – and in the end maybe, about love. I’m certain that Welsh audiences will have the same joy seeing it performed as I had working on it.”*

Arwel Gruffydd, Artistic Director of Theatr Genedlaethol Cymru said;

“It’s a pleasure for us to be announcing this exciting news today. I have been a great admirer of Gary Owen’s work for years. He’s one of our foremost playwrights, and he has had enormous success at theatres such as the Royal Court and the National Theatre, as well as at home here in Wales. It’s a privilege to bring two such huge names together in one production, with Meic Povey too being one of Wales’s most loved and talented writers.

Ac mae gennym gast cryf, yn cael eu harwain gan yr anfarwol Siw Hughes. Braf iawn yw cael ei chroesawu nôl atom. Ond dyma'r tro cyntaf i rai eraill o'r cast weithio gyda'r cwmni ac mae'n bleser bob tro cael gweithio hefyd gydag actorion newydd."

And we have a strong cast too, led by the extremely talented Siw Hughes. It's a pleasure to welcome her back to work with us again. But this is the first time for others in the cast to be working with the company, and it's a pleasure, as always, to welcome new actors to us and some of the next crop of Welsh theatre talent."



Gary Owen – awdur

author

Gaeth Gary Owen ei eni yn Sir Benfro yn 1972. Mae e'n adnabyddus iawn fel awdur dramâu yn Saesneg.

Gary Owen was born in Pembrokeshire in 1972. He is a well-known English language playwright.

Ond nid dyma'r tro cyntaf i Gary fentro i fyd y theatr Gymraeg. Ysgrifennodd y ddrama 'Amgen:Broken' a gynhyrchwyd gan gwmni Sherman Cymru yn 2009 sy'n dangos dwy ochr i gymeriad – un yn Gymraeg ac un yn Saesneg. Hefyd mae o wedi ysgrifennu dramâu o'r enw 'Amser Canser' a 'Pen-blwydd Poenus Pete'.

But this is not the first time for Gary to venture to Welsh theatre. He wrote the play 'Amgen:Broken' which was produced by Sherman Cymru company in 2009 which shows two sides to a character – one Welsh and one English. He has also written the plays 'Amser Canser' and 'Pen-blwydd Poenus Pete'.

Ar gyfer y perfformiad hwn mae'r dramodydd Michael Povey wedi cyfieithu drama Saesneg Gary o'r enw 'Mrs. Reynolds and the Ruffian' i Gymraeg.

For this performance the Welsh language playwright Michael Povey has translated Gary's English language play 'Mrs. Reynolds and the Ruffian'

Stereoteipau

Mae stereoteipiau a'r ffordd rydyn ni'n edrych ar bobl eraill yn bwysig iawn i'r ddrama hon. Mae'r cymeriadau'n gweld stereoteipiau yn ei gilydd a rydyn ni'n gweld y stereoteipiau ein hunain. Pa nodweddion fasech chi'n eu rhoi i'r cymeriadau canlynol?

Stereotypes

Stereotypes and the way we look at other people is very important in the play. The characters see stereotypes in each other and we ourselves see stereotypes. Which descriptions would you give to the following characters? (translations below)

HEN DDYNES/HEN FENYW



addysgiedig

alcohol

anonest

bregus

bygythiol

cyffuriau

cyfrwys

ddim yn gwybod am y byd modern

ddim yn rhegi

ddiaddysg

dim parch

gonest

hen-ffasiwn

hyderus gyda thechnoleg

parchus

rhegi

smygu

HOODIE



addysgiedig – educated; **anonest** – dishonest; **bregus** –vulnerable; **bygythiol** – threatening; **cyffuriau** – drugs; **cyfrwys** – cunning; **ddim yn gwybod am y byd modern** – doesn't know about the modern world; **ddim yn rhegi** – doesn't swear; **ddiaddysg** – uneducated; **dim parch** – no respect; **gonest** – honest; **hen-ffasiwn** – old-fashioned; **hyderus gyda thechnoleg** – confident with technology; **parchus** - respectable; **rhegi** – to swear; **smygu** – to smoke

Sumboliaeth yr Ardd

Mae'r ardd yn symbol bwysig mewn llenyddiaeth. Meddylwch am yr ardd yn stori Alys yng Ngwlad yr Hud lle mae Alys yn ysu am fynd i'r ardd hyfryd ond mae'r drws yn rhy fach. Mae hi'n gorfod newid ei hun i gael dod i mewn.

Wrth gwrs yr ardd enwocaf yw Gardd Eden, lle mae Efa yn cael ei themptio i fwyta o'r afal. Mae'n bosib meddwl am yr ardd yn y ddrama hon fel rhywle i gael addysg, rhywle i dyfu a rhywle i gael maeth. Mae Jay yn ceisio dinistrio hyn oll yn y dechrau.


Syniad arall sy'n gysylltiedig â garddio yw'r syniad o'r 'hedyn drwg'. Oes gobaith i hedyn drwg os bydd yn cael ei blannu mewn gardd a rhywun yn ofalu amdano'n dyner? Wrth gwrs mae angen cael gwared â'r chwyn cyn y bydd hyn yn gallu digwydd. Oes gobaith i gymeriad fel Jay sydd erioed wedi cael chwarae teg mewn bywyd?

Symbolism of the Garden

The garden is an important symbol in literature. Think of the garden in Alice in Wonderland where Alice longs to go to the beautiful garden but the door is too small. She must change herself in order to enter.

Of course the most famous garden is the Garden of Eden, where Eve is tempted to bite the apple. It's possible to think of the garden in this play as somewhere where a person can get information, a place to grow and a place of nourishment. Jay tries to destroy all of this in the beginning.

Another idea connected with gardening is the idea of 'the bad seed'. Is there any hope for a bad seed if it is planted in a garden and carefully cared for? Of course one must get rid of the weeds before this can happen. Is there any hope for a character such as Jay who has never had any fair play in his life?



Mrs. Reynolds (Siw Hughes)



Gwraig weddw. Mam i ddau blentyn sy'n byw yn bell i ffwrdd. Mae hi'n mwynhau garddio, sy'n ei hatoffa o'i gŵr. A dweud y gwir roedd ei gardd yn dipyn o sioe cyn i Jay ei difrodi. Er gwaethaf yr olwg allanol mae llawer mwy iddi hi nag y byddwch yn disgwyl. Hefyd mae ganddi gyfrinach.

A widow. Mother of two children who live a distance away. She enjoys gardening, which reminds her of her husband. Her garden was actually quite spectacular before Jay attacked it. Despite external appearances there is much more to her than you expect. She also has a secret.

Jay (Siôn Emyr)

Hogyn/bachgen drwg. Mae ei fam ar gyffuriau ac yn barod i wneud unrhyw beth i gael fix. Doedd hi ddim wedi gallu rhoi chwarae teg i Jay sydd wedi mynd yn wyllt. Mae e wedi dinistrio gardd Mrs. Reynolds, a hynny'n fwriadol i'w brifo hi achos ei bod yn 'bob dydd yn yr ardd yn edrych yn smyg efo... (ei) blodau ffansi.'



A bad lad. His mother is a drug addict who will do anything for a fix. She couldn't give Jay a proper upbringing, which is why he has gone wild. He destroyed Mrs. Reynolds' garden intentionally to hurt her because she is 'in the garden every day looking smug with her fancy flowers.'

**Cassie
(Rhian
Green)**



Gweithwraig gymdeithasol gydwybodol ifanc.
Ddim yn graff iawn ond ceisio gwneud y pethau
iawn.

*A young conscientious social worker. Not very
sharp, but tries to do the right things.*

**Mel
(Leah Gaffey)**



Merch sydd â thipyn o hanes. Ond erbyn hyn
mae hi'n ceisio ail-adeiladu ei bywyd er mwyn
cael byw gyda'i phlentyn.

*A girl with history. But now she is trying to
rebuilt her life in order to be able to live with her
child.*

**Kieran
(Iwan Fôn)**



Ffrind Jay
Jay's friend.

laith y Ddrama

Mae'r stori'n digwydd mewn tref yng Ngogledd-Orllewin Cymru felly mae'r iaith yn ogleddol iawn. Mae llawer iawn o regi (Saesneg) yn y ddrama hefyd.

Mae iaith yn bwysig yn y ddrama hefyd achos y defnydd o '**chi**' a '**ti**' (**chdi**). Rydyn ni'n gweld diffyg parch Jay trwy ei ddefnydd o'r anffurfiol '**chdi**' yn lle '**chi**' efo Mrs. Reynolds.

Beth ydy '**Cena Bach**'? Yr enw Saesneg i'r ddrama oedd 'Mrs. Reynolds and the Ruffian'. Ystyr 'cenau' yw *cub, pup, whelp* neu *rascal*. Mae'r term dipyn bach yn hen-ffasiwn i glustiau Jay.

Edrychwch allan am y defnydd o'r llythrennau '**a**' yn lle '**au/ai/e**' megis '**edrach, rwbath, cyfla**' sydd wedi eu nodi gyda *.

The Language in the Play

The story happens in a town in Northwest Wales, so the language is very northern. There is a lot of (English) swearing in the play also.

Language is important in the play also because of the use of '**chi**' and '**ti**' (*chdi* in North Wales). We see Jay's lack of respect through his use of '**chdi**' instead of '**chi**' with Mrs. Reynolds.

What is '**Cena Bach**'? The name of the play in English was 'Mrs. Reynolds and the Ruffian'. **Cenau** means *cub, pup, whelp* or *rascal*. The term is rather old-fashioned to Jay's ears.

Look for the examples of the letter '**a**' being used instead of '**au/ai/e**' as in '**edrach, rwbath, cyfla**'. Marked with *

ENGHEIFFTIAU O'R IAITH

IAITH Y DDRAMA

Language in the play

'da ni ddim*

Be' ddeudsoch chi:

cerad *

cowch chi

cyfla *

dallt

dalltwch

distaw

Ddyla*

d'eud

dyna ddeudsoch chi.

edrach *

efo

fysat *

gedru

gin ti

gnowch

gwla

I chdi.

isio

IAITH Y DE/IAITH LENYDDOL

Literary/South Wales Welsh

dyn ni ddim

Beth ddwedoch chi?

cerdded

cewch chi

cyfle

deall

rydych chi'n deall

tawel

Dylai

dweud

dyna ddwedoch chi

edrych

gyda

baset/byddet

medru/gallu

gyda ti

gwnewch

gwelyau

i ti

eisiau/moyn

SAESNEG

English

we don't

what did you say?

you will have

chance

you understand

quiet

ought

that's what you said

you would

you have

make

beds

Nag'di	Nag ydy	<i>it isn't</i>
nagdan*	nag ydyn	<i>they aren't</i>
Nesh i o	Gwnes i fe	<i>I did it</i>
O lle ddoth hon	O ble daeth hon	<i>Where did this come from?</i>
'rar	gardd	<i>garden</i>
rw bath *	rhywbeth	
'rydach chi'n *	rydych chi'n	
'Sa ddim *	Tasai ddim	<i>if there were not</i>
Sgin i ddim	Does dim ... gyda fi	<i>I don't have</i>
'Tasa *	Tasai	<i>If...</i>
tydio ddim	Dyw e ddim	<i>It's not</i>
wadd	gwahoddiad/gwahodd	<i>invitation/to invite</i>
watsia be'	gwylia beth...	<i>watch what....</i>
wrach	(hwyrach) efallai/falle	<i>maybe/perhaps</i>
wsti.	rwyt ti'n gwybod	<i>You know</i>
Yndw	Ydw	<i>I do</i>

ENGHREIFFTIAU O IAITH JAY:

EXAMPLES OF JAY'S SPEECH:

'Ti'm yn gweld, Mrs. Reynolds? Bob tro dwi'n cerad lawr y stryd, dwi'n dy weld ti yn dy 'rar; yn

edrach yn smyg, efo dy floda' ffansi. 'Tasa ti'n joclet mi fysat yn byta dy hun, yn llyfu fy hun drosto.

Ddim.....(A GWNA 'SIOE' O'R GEIRIAU) 'ar hap'...!...o'dd o. Nesh i o 'cos o'n i ishio'i 'neud o, Mrs.

Reynolds. I chdi. A ddylat chdi deimlo'n fregus.....cos bregus w't ti.

Hei, woa, cwl hed, watsia be' 'ti'n dd'eud yn fa'na. 'Sa chdi ddim isio i rw bath ofnadwy 'ddigwydd i

chdi, nafsat? Dwi'n gallu ca'l laff oce, dwi'n foi sy'n gallu ca'l laff fel unrhyw berson arall, ond ma' hyn

o ddirfri, Mrs. R. Ma' gin i fets. Ma' gin i bobol helpith fi; ac os 'nei di rw bath i droi fi mewn, wel, 'da

ni ddim isio hynna, nagdan? Sgribla dy enw ar y papur, deud bo' chdi'n hapus a fydd pawb yn saff.

Darnau ymarfer:

Practise pieces:

DARN UN: Cassie yn dod o hyd o fwclis Mrs. Reynolds yng nghôt Jay

MRS. REYNOLDS:

'Mwclis i. Sud bo' nhw yn y'ch cot chi?

JAY:

Dim eidia.

MRS. REYNOLDS:

Ofynsoch chi i fi roi cyfla iddo fo; dwi wedi rhoi cyfla iddi fo - dwi hyd yn oed wedi wadd o i'r ty! A dyma sud ma'r diawl bach yn diolch i mi!

CASSIE:

Anodd gwbod be' i'w ddweud.

JAY:

First i chdi?

MRS. REYNOLDS:

Y gwr roth hon i mi; yn bresant....

JAY:

Hei, sgin i'm syniad sud landiodd hi yn 'y mhocad i, oce?

MRS. REYNOLDS:

Pen blwydd priodas yn ddeg ar hugian...

JAY:

Oes 'na olwg stiwpid arna'i ne' wbath? Pam fyswn i'n trio dwyn y crap yma?

MRS. REYNOLDS:

Ateb parod i bob dim. Rhy barod wrach.

JAY:

Mae o'n rhy obvious, 'dydi!

CASSIE:

Oeddach chi'n 'i gwisgo'i, yn gynharach? Beidio bod hi wedi disgyn o'ch gwddw chi?

MRS. REYNOLDS:

Mi 'dach chi 'i goelio fo'n barod!

CASSIE:

Ystyried pob posibiliad.

MRS. REYNOLDS:

Sgin i ddim co' pryd wisgish i hi ddwytha. Rhy werthfawr i'w gwisgo. Na, mae o wedi bod yn 'yn stafall wely i ac wedi bod yn chwilota trw' 'mhetha'!

JAY:

Dwi'm 'di bod yn agos at y ty!

MRS. REYNOLDS:

Ydach mi ydach chi. Euthoch i'r toilet.

JAY:

Oce, iawn, do, ond no way fyswn i'n...

MRS. REYNOLDS:

Ddiflannoch am o leia' pum munud; agosach at ddeg.

JAY:

Be' o'n i fod i 'neud - piso mewn potal?

MRS. REYNOLDS:

Un celwydd ar ol y llall.

JAY:

Anghofio 'nesh i, oce?

MRS. REYNOLDS:

Wynebwch fi; drychwch i fyw 'yn llygaid i; owch ar y'ch llw na ddaru chi ddwyn y mwclis.

JAY:

Nesh i ddim...

MAE'N PETRUSO; SIMSANU - YNA MAE'N WENAU I GYD.

JAY:

Sori, sori...

MRS. REYNOLDS:

Fedar o ddim. Fedar o ddim edrych i fyw 'yn llygaid i.

JAY:

Chdi 'di bai. 'Ti jyst mor blydi siriys - am bygyr ol rili.

DARN DAU: Jay a Mrs. Reynolds yn nes ymlaen

JAY: Sori, dwi'n hwyr; eto. Sori..

MRS. REYNOLDS: Ddim felly, mi gowch -

MRS. REYNOLDS: Mi gowch gyrraedd pryd 'mynnwch chi.

JAY: Nuh, ma' deg yn oce i fi ia. Wel, dwi'n d'eud hynna ond dwi'n hwyr bob bora.
Deg yn oce i nelu ato fo o leia' 'dydi.

(MRS. REYNOLDS YN EI WYLIO YN PAENTIO AM SBELAN.)

MRS. REYNOLDS:
'Rhywun yn dangos yr un brwdfrydedd.

JAY: Sori?

MRS. REYNOLDS:
Mi 'dan ni'n gwneud y'n gora' i dyfu bloda' yn y ddaear, a ma' rhywun wedi tynnu llun blodyn ar y wal. Hen dro paentio drosto fo rhywsud.

JAY:
Be' am beidio ta. Gada'l llonydd iddo fo. Os liciwch chi - pam lai?

MRS. REYNOLDS:
Achos mae fandaliaeth ydi'o.

JAY:
Ond - 'dach chi'n licio fo.

MRS. REYNOLDS:
Yn fwy na'r gweddill wrach.

JAY:
G'neud y lle yn well.

MRS. REYNOLDS:
Am wn i 'i fod o.

JAY:
So paentio dros bob dim arall a gada'l y blodyn 'lle mae o?

(MRS. REYNOLDS YN NODIO YN GYMERADWYOL.)

DARN TRI: Jay a Mel

JAY:

Hen jadan flin fel'a?

MEL:

Yn helpu'r hen jadan flin

Efo'i 'rar'. Star, ta be'.

JAY:

Jyst weithia'.

MEL:

Bob dwrnod! Dwi'n dy weld ti, bob blydi dwrnod.

JAY:

Sbio lot arna'i ta?

MEL:

Ia, ydw, 'siwr bo' fi.

JAY:

Weird. 'Ti ddim yn meddwl bod o'n weird?

MEL:

Ydio'n weird? Ta jyst...

JAY:

Be'?

MEL:

Jyst, pan o'n i'n fengach

Wastad yn chwilio am drwbwl, wsti,

Into hogia' drwg. A rwan - boi fel chdi -

JAY:

Boi fel fi be'?

MEL:

Rwan....dwi rili into boi fel chdi.

JAY:

W't ti?